

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw ag Eirianwen Martin (Nantglyn) a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei brawd yn ystod yr wythnos. Hyderwn y bydd Duw yn gwarchod eto dros y teulu a thros y teuluoedd eraill yn y Fro sy'n galaru am anwyliaid. "Da yw'r ARGLWYDD i'r rhai sy'n gobeithio ynddo, i'r rhai sy'n ei geisio." (Galarnad 3:25)
- Anfonwn ein cofion hefyd at Megan Evans (Llansannan) sydd wedi bod yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyd yr wythnos, fel ag y mae Nerys Mosford Jones (Saron). Diolchwn am y ddwy ohonynt, a chyflwynwn hwy i'r Arglwydd gan ofyn Iddo gysgodi drostynt, a gwylio dros eu hanwyliaid hefyd. Mae eraill o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd ac eraill wedi cael anffawd yn ystod yr wythnos. Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal Duw gan weddio y bydd pob un ohonynt yn cael adferiad iechyd llwyr a buan.

Canu Carolau

Mae sawl un o'n haelodau mewn cartrefi gofal ar hyn o bryd ac fe fyddai'n hyfryd medru eu cynnwys nhw yn ein dathliadau wrth inni baratoi ar gyfer y Nadolig. Tybed fyddai rhai ohonoch awydd ymuno â pharti fyddai'n mynd i gartrefi i ganu carolau? Os oes gennych ddi-ddordeb, wnewch chi gysylltu hefo Mair **erbyn dydd Sul, Tachwedd 26^{ain}**, os gwelwch yn dda? Byddai'n dda gwybod pwy sydd ar gael yn ystod y dydd a/neu fin nos cyn i ni wneud trefniadau pendant, ac wedyn gallwn hefyd drefnu noson i ymarfer.



I ddod

- **GWASANAETH CAROLAU BRO ALED** yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan nos Sul, Rhagfyr 10fed am 6.00. Paned a mins pei i ddilyn.
- **OEDFA NADOLIG I'R FRO** – oedfa deulu yng Nghapel Llanefydd **am 10.30** bore Sul, Rhagfyr 24ain.
- **SWPER NADOLIG BRO ALED** yn Festri Llansannan, nos Iau, Rhagfyr 28ain am 7.30.
- **TAITH GERDDED HAMDDENOL I'R FRO** dydd Gwener, Rhagfyr 29ain. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **OEDFA I'R FRO** bore Sul, Rhagfyr 31ain **am 10.30** yng Nghapel Cefn Meiriadog.
- **LLANW** – Bydd gŵyl Gristnogol Llanw yn cael ei chynnal yng Nghydweli yn 2018 a hynny rhwng Ebrill 2il – 5ed gyda phrif weithgareddau'r ŵyl yn cael eu cynnal yng Nghanolfan y Dywysoges Gwenllian yng Nghydweli a'r llety yn cael ei ddarparu yn y *Carmarthen Bay Holiday Park* ychydig filltiroedd i ffwrdd. Mae pris gostyngol i bawb sy'n archebu lle i aros cyn diwedd 2017. Ewch i'r wefan www.llanw.org am fwy o fanylion a ffurflen archebu.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 26^{ain} Tachwedd 2017

Darlleniad y Dydd

Ioan 3:27-30

(BCND tud.102 / BCN tud.94)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso i'n gwasanaethau ar draws yr ofalaeth heddiw. Bydd hi'n oedfa arbennig yn y Groes y pawns 'ma wrth i aelodau a chyn-aelodau ddathlu 200 mlwyddiant y capel. Wrth ddathlu cerrig milltir o'r fath, cawn gyfle i ddiolch i'r Arglwydd a chael ein hatgoffa fod y Duw a alwodd pobl ynghyd i gyd-addoli ganrifoedd yn ôl yn parhau i fod yn Dduw sydd ar waith yn y presennol hefyd. Ac wrth edrych dros hanes yr eglwys, rhyfeddwn nad oes 'terfyn ar gariad yr Arglwydd, ac yn sicr ni phalla ei dosturiaethau. Y maent yn newydd bob bore, a mawr yw dy ffyddlondeb.' (Galarnad 3:22-23)

Dydd Gwener oedd y diwrnod sy'n cael ei adnabod yn Saesneg fel *Black Friday*; traddodiad o America lle mae tymor y siopa Nadolig ar ei anterth â'r siopau yn llawn dop o bobl yn hela'r fargen orau. O hyn ymlaen mae'n ymddangos fod popeth mewn siopau a hysbysebion yn ceisio'n perswadio fod angen gwario ar frys er mwyn bod yn barod at y Nadolig. Ac wrth siarad hefo pobl ynglŷn â'u paratodau ar gyfer yr Ŵyl, yn enwedig wrth drafod bwyd, fe glywir y frawddeg – "bydd y deiet yn cychwyn ar ôl 'Dolig'" yn cael ei hyngan yn aml! Er mai yn ysgafn y mae pobl yn dweud hyn, mae'n ddatganiad doeth hefyd yn tydi? Os ydan ni wir yn dymuno colli pwysau a cheisio bod yn iachach, does dim llawer o synnwyr mewn gwneud hynny wrth barhau i or-fwyta, a threulio'r rhan fwyaf o'n diwrnod yn ddi-symud!

Wrth i ni ystyried geiriau Ioan Fedyddiwr yn ein darlleniad ar y cyd heddiw: 'Y mae'n rhaid iddo ef gynyddu ac i minnau leihau', sylweddolwn fod yr hyn y mae'n ei ddweud yn gyngor doeth i Gristnogion ym mhob oes. Os ydym yn holi ein hunain sut ydym ni'n aeddfedu fel Cristnogion, mae'n amlwg y bydd Iesu Grist yn ganolog i'r ateb oherwydd fe ddywedodd Ef: 'ar wahân i mi ni allwch wneud dim.' (Ioan 15:5) Ac os ydym am i Iesu gynyddu yn ein bywydau ni, mae'n gwneud synnwyr fod yn rhaid i ninnau leihau'r un pryd. Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol ydi troi cefn ar roi'n hunain yn gyntaf a rhoi'r flaenoriaeth iddo Ef ym mhopeth ac ym mhobman. Bywyd o ffydd yw hyn lle mae'r Cristion yn ymddiried yng ngwaith Crist drosom i ddod â ni at y Tad, ac yn dibynnu ar gymorth Ysbryd Duw i frwydro yn erbyn pob pechod, balchder a hunanoldeb sydd ynom. Ac ochr yn ochr â hyn rydym yn gweddio am gael gweld mawredd Iesu'n gliriach fel y gallwn ninnau fel Ioan Fedyddiwr ddweud yn ddiolchgar am ein Gwaredwr - 'Dyma Oen Duw, sy'n cymryd ymaith bechod y byd.' (Ioan 1:29)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Rhodri

Darlleniad Wythnos Nesaf

Deuteronomium 18:14-19 (BCND tud.179 / BCN tud.164)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 26^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 28^{ain} ➤ SYLWCH: Ni fydd **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** yr wythnos hon. Ymddiheuriadau am hynny.
- Mercher – 29^{ain} ➤ **Cyfarfod Blaenoriaid a Diaconiaid Gofalaeth Bro Aled** yn Llanefydd am 7.30.
- Iau – 30^{ain} ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- Gwener – 1^{af} ➤ **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog o 4.00-5.30.
- Sul nesaf – 3^{ydd} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwawr Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 26^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 3^{ydd} ➤ Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 26^{ain} ➤ Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn heddiw, ond bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun dydd Sul nesaf am 2.00. (SYLWCH AR Y NEWID).
- Mercher – 29^{ain} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW (26^{ain})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 3^{ydd} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 26^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 3^{ydd} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 26^{ain} ➤ Croeso i bawb i wasanaeth arbennig i dathlu 200 mlwyddiant Capel y Groes am 2.00. Bydd paned i ddilyn yn Neuadd y Plwyf. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac i'r plant a'r oedolion yn Groes am 10.00.
- Sul nesaf – 3^{ydd} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 26^{ain} ➤ Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 3^{ydd} ➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghefn Berain.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i effengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.